**ROYAL PHARMACEUTICAL SOCIETY**

YMGEISYDD AS

EICH ETHOLAETH

"Materion Fferylliaeth"

# Ein presgripsiwn ar gyfer iechyd y genedl

**Os caf fy ethol, byddaf yn gweithio i gefnogi iechyd fy etholwyr drwy alw ar y Llywodraeth nesaf i:**

- Adeiladu ar lwyddiant gwasanaethau fferyllwyr sy'n rhagnodi i wella mynediad cleifion i ofal yn nes at eu cartrefi.
- Adolygu taliadau presgripsiwn yn Lloegr i greu system decach i gleifion ledled y DU.
- Cryfhau cadwyn gyflenwi meddyginiaethau'r DU, fel y gallwn sicrhau bod cleifion yn cael y meddyginiaethau sydd eu hangen arnynt

RWY'N ARWYDDO I DDANGOS FY NGHEFNOGAETH

DYDDIAD

#VotePharmacy

# Cefnogi cyfraniad fferyllwyr at ofal cleifion ac ein GIG

Rydym ar adeg dyngedfennol i'n gwasanaeth iechyd, gyda ffocws ar ddiogelwch cleifion, prinder meddyginiaethau, datblygiadau mewn technoleg, a phwysau cynyddol ar y gweithlu.

Yn erbyn y cefndir hwn, bydd y Llywodraeth nesaf yn wynebu rhai heriau allweddol i gefnogi cleifion a'r GIG yn 2024 a thu hwnt.

## 1 Sicrhau mynediad cleifion i feddyginiaethau

Dileu taliadau presgripsiwn yn Lloegr, yn unol â Chymru a'r Alban, i greu system decach i gleifion ledled Prydain – cael gwared ar y dreth atchweliadol hon ar bobl sâl.

Cefnogi adolygiad o gadwyn gyflenwi meddyginiaethau'r DU, fel y gallwn sicrhau bod cleifion yn cael y meddyginiaethau sydd eu hangen arnynt.

## 2 Cefnogi GIG mwy cysylltiedig

Ariannu seilwaith TG i alluogi pob gweithiwr iechyd proffesiynol i gael mynediad at gofnod claf a'i ddiweddaru – i hyrwyddo gofal integredig, mwy diogel.

Sicrhau bod rôl Prif Fferyllydd wedi'i chlustnodi ym mhob System Gofal Integredig i sicrhau bod diogelwch meddyginiaethau yn parhau i fod wrth wraidd y GIG.

## 3 Gwella rhagnodi hygyrch mewn cymunedau lleol

Cefnogi datblygiad pellach gwasanaethau rhagnodi fferyllwyr i wella mynediad cleifion i ofal yn nes at eu cartrefi.

Datblygu a chefnogi timau fferylliaeth i gymryd rôl arweiniol o ran rhagnodi ac optimeiddio meddyginiaethau, gan alluogi pobl i fyw'n dda gyda'r meddyginiaethau a'r triniaethau y maent yn eu cymryd.

## 4 Gwella iechyd i'r eithaf trwy dimau fferylliaeth hygyrch lleol

Buddsoddi mewn fferyllwyr a thimau fferyllol i wneud y mwyaf o'u cyfraniad at ofal sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, iechyd y cyhoedd ac atal, a diogelwch meddyginiaethau.

Cytuno ar gyllid teg ar gyfer fferylliaeth gymunedol fel bod cleifion yn cael mynediad cyflymach at ofal a chyngor arbenigol sydd ar gael yn lleol.

## 5 Cefnogi'r gweithlu i ddarparu gofal cleifion

Pasio deddfwriaeth hir-ddisgwyliedig ar Oruchwyliaeth mewn fferyllfeydd cymunedol fel y gall fferyllwyr ddarparu mwy o wasanaethau clinigol.

Buddsoddi mewn addysg, hyfforddiant a datblygiad fferyllwyr a thechnegwyr fferyllol i ateb y galw cynyddol am eu harbenigedd. Galluogi myfyrwyr fferylliaeth i gael mynediad at y Gronfa Cymorth Dysgu ochr yn ochr â phroffesiynau iechyd eraill.

## 6 Datgloi potensial datblygiadau newydd mewn meddyginiaethau

Adeiladu ar safle'r DU fel arweinydd byd-eang mewn meddyginiaethau newydd, gan gynnwys trwy dreialon clinigol a datblygiadau mewn meddygaeth bersonol er mwyn sicrhau canlyniadau gwell i gleifion.

Buddsoddi yn y gweithlu iechyd a gwyddoniaeth i sicrhau bod ganddynt y sgiliau a'r gallu i wneud y gorau o dechnolegau newydd, megis ffarmacogenomeg a gofal iechyd digidol.

## 7 Cefnogi safle rhyngwladol y DU mewn gwyddoniaeth ac ymchwil

Sicrhau bod y DU yn parhau i fod yn lle deniadol i dalentau gorau'r byd fyw, gweithio ac astudio ynddo er mwyn cefnogi ein gwasanaethau gofal iechyd, prifysgolion a diwydiant.

Parhau i gefnogi cyllid ar gyfer cymuned wyddoniaeth ac ymchwil y DU a chefnogi cydweithredu rhyngwladol i ddarparu ymchwil wyddonol o'r radd flaenaf.

# Fferylliaeth mewn rhifau

## 5 mlynedd
Mae'n cymryd 5 mlynedd o hyfforddiant i gymhwyso fel fferyllydd - ni yw'r arbenigwyr mewn meddyginiaethau.

## 8%
Mae hyd at 8% o'r holl dderbyniadau i'r ysbyty heb eu cynllunio o ganlyniad i faterion meddyginiaeth y gall fferyllwyr helpu i fynd i'r afael â nhw.

## 2026
O 2026, bydd pob fferyllydd newydd gymhwyso yn gallu rhagnodi.

## 1.2m
Mae 1.2 miliwn o ymweliadau â fferyllfeydd cymunedol bob dydd am resymau'n ymwneud ag iechyd.

## 20bn
Mae fferyllwyr yn hanfodol i gefnogi'r defnydd gorau o feddyginiaethau, y math mwyaf cyffredin o driniaeth yn y GIG, gyda gwariant blynyddol o £20 biliwn.

## 25%
Mae meddyginiaethau yn cyfrif am 25% o allyriadau carbon y GIG yn Lloegr, y gellir eu lleihau gyda mentrau fferylliaeth gwyrddach.

## 10%
Ynghanol argyfwng cost-byw, mae 10% o bobl wedi osgoi cymryd un neu fwy o bresgripsiynau GIG oherwydd costau presgripsiwn.

## 64,000
Y gweithlu fferylliaeth yw'r trydydd mwyaf yn y GIG, gyda dros 64,000 o fferyllwyr ym Mhrydain Fawr, ac mae angen iddo dyfu i ateb y galw am wasanaethau fferyllol.

## £650m+
Mae'r Gwasanaeth Meddygaeth Newydd yn Lloegr, sy'n darparu cymorth i bobl â chyflyrau hirdymor y rhagnodir meddyginiaeth newydd iddynt, yn arwain at arbedion o dros £650 miliwn i'r GIG.

# Sut gallwch chi helpu

**Ydych chi'n ymgeisydd yn yr etholiad cyffredinol?**

- Ewch i weld fferyllydd lleol, tynnu llun, a chlywed yn uniongyrchol sut mae fferyllwyr yn gwneud gwahaniaeth gwirioneddol i iechyd eich etholwyr.
- Cefnogwch yr addewid fferyllfa a defnyddiwch **#VotePharmacy** ar gyfryngau cymdeithasol **@rpharms** i ddangos eich cefnogaeth (gallwch ddod o hyd i ni ar X, Facebook ac Instagram hefyd).
- Dywedwch wrth eich etholwyr sut yr ydych yn cefnogi'r proffesiwn fferylliaeth.

# Ynglŷn â fferyllwyr

- Mae fferyllwyr yn gweithio ar draws pob agwedd ar y gwasanaeth iechyd – unrhyw le lle mae meddyginiaethau'n gysylltiedig. Mae tua 60% yn gweithio mewn fferyllfeydd cymunedol lleol, yn darparu cyngor hygyrch a chyflenwi meddyginiaethau. Mae 15% yn gweithio mewn lleoliadau gofal sylfaenol eraill, fel practisau meddygon teulu a Rhwydweithiau Gofal Sylfaenol, yn cefnogi rhagnodi meddyginiaethau'n ddiogel ac yn effeithlon.
- Mae tua 20% o fferyllwyr yn gweithio mewn ysbytai, yn cefnogi cyflenwad diogel a rhagnodi meddyginiaethau ar draws ymddiriedolaethau'r GIG. Mae fferyllwyr hefyd yn gweithio mewn ysgolion, carchardai, ymddiriedolaethau iechyd meddwl, gwasanaethau rheoleiddio a phrifysgolion, yn ogystal ag yn y diwydiant fferyllol yn cefnogi datblygiad meddyginiaethau achub bywyd.

E-bostiwch ni: campaigns@rpharms.com